Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2017

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2017** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017 (copi'n amgaeedig).

**5 POLISI CLUDIANT DYSGWYR SIR DDINBYCH** (Tudalennau 15 - 60)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc (copi'n amgaeedig) yn argymell mabwysiadu Polisi Cludiant Dysgwyr newydd Sir Ddinbych i'w roi ar waith ar 1 Medi 2018.

**6 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION BAND B** (Tudalennau 61 - 104)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Rhaglen Amlinelliad Drafft Ysgolion yr 21ain ganrif ac Addysg i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru er ystyriaeth.

**7 PENODI AELODAU I GYRFF ALLANOL** (Tudalennau 105 - 110)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig) ar yr adolygiad a phenodi aelodau i gyrff allanol.

**8 STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU** (Tudalennau 111 - 176)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) sy'n cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Asedau ar gyfer ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

**9 GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL - CYLCH GORCHWYL** (Tudalennau 177 - 182)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) sy'n gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Cylch Gorchwyl diwygiedig y Grŵp Buddsoddi Strategol.

**10 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 183 - 196)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni.

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 197 - 198)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

## 12 CASTELL BODELWYDDAN (Tudalennau 199 - 212)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) ynglŷn â dyfodol Castell Bodelwyddan.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned